# Wythnos 1 / Cyfnod sylfaen CA1
# Cyflwyniad i'r Beibl






## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** Mae'r Beibl yn rymus ac yn fwy miniog na chleddyf


### Adnodau allweddol:

| **Eseia 40.8** | **Hebreaid 4.12** |
|---|---|
| *Mae'r glaswellt yn crino, a'r blodyn yn gwywo, ond mae neges yr Arglwydd yn aros am byth!* | *'Mae neges Duw yn fyw ac yn cyflawni beth mae'n ei ddweud. Mae'n fwy miniog na'r un cleddyf.'* |

### Resources:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  Dau lafn o laswellt |  Dau ddarn o bapur A4 |  Tâp masgio neu raff i nodi llinell gychwyn |  Blodau sy'n dechrau gwywo a throi'n frown |  Dau Feibl wedi'u lapio â rhuban fel anrhegion |
|  Llun lliw o'r straeon canlynol (un llun i bob stori) |  Pentwr o Feiblau |   Llawer o ddarnau o bapur (gwahanol liwiau os yn bosibl), pob un yn dweud 'Geiriau Duw' - cymaint ag y gallwch chi eu gwneud a'u stwffio i mewn i Feibl mawr |  Tegan morthwyl 'Thor' a tharian Captain America (neu defnyddiwch luniau ohonynt) |  Map o'r byd neu glôb y gall y plant ymgynnull o'i gwmpas |


1. Noa 2. Y Creu 3. Iesu'n tawelu storm 4. Iesu'n marw ac yn dod yn ôl yn fyw 5. Daniel yn Ffau'r Llewod 6. Iesu'n iacháu pobl (syniadau a awgrymir ar gyfer straeon nad ydynt yn y Beibl) 7. Elfed yr Eliffant 8. Sali Mali 9. Trysor y Môr Ladron 10. Llyfr Mawr y Plant 11. Rala Rwdins 12. Y Tri Mochyn Bach



# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at yr 'adnod allweddol' – os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel y diagram isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd.**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn: *'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur y gallwch ei ddal i fyny o flaen y sgrin


# Gweithgaredd agoriadol: Llafnau o laswellt

Rhowch lafn o laswellt a dalen o bapur A4 i ddau wirfoddolwr. Rhowch y llafn o laswellt ar linell gychwyn (wedi'i farcio â thâp masgio neu raff). Ar eich marc, rhaid i'r ddau wirfoddolwr chwifio'u darnau o bapur i greu chwa o wynt er mwyn symud y llafn o laswellt tuag at y llinell derfyn; y cyntaf i'r llinell derfyn sy'n ennill. Chwaraewch hyn cynifer o weithiau ag y dymunwch, gyda chymaint o wirfoddolwyr ag y gallwch.

Cymhwyswch: (dangoswch i'r plant un o'r llafnau glaswellt sy'n edrych yn eithaf blinedig a llipa erbyn hyn). Roedd y llafn hwn o laswellt yn edrych yn ffres a gwyrdd ar gyfer ein gêm, ond ar ôl dim ond ychydig o gemau mae'n edrych yn eitha llipa a diymadferth. Mae'n debyg bod angen i ni ei daflu i ffwrdd felly. Ond mae yna un peth na fydd BYTH yn mynd yn llipa na diymadferth, yn hen neu'n rhywbeth na ellir ei ddefnyddio fel y glaswellt - (gan actio'n gyffrous i gyd, dechreuwch ddadlapio'r Beibl sydd wedi'i lapio) - Y BEIBL!

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Fe allech chi ofyn ymlaen llaw i deuluoedd nôl llafn o laswellt a rhywfaint o bapur a chael eu hwyl eu hunain yn ceisio cael eu llafn o laswellt o un lle i'r llall yn eu cartref
- NEU gallech chi osod eich dyfais mewn modd fydd yn eich dangos chi'n ceisio cael eich llafn o laswellt o un man i'r llall er mwyn i'r plant eich gwylio'n gwneud hynny



# Gweithgaredd: Blodau

Trefnwch i un o'ch arweinwyr ddod i mewn a rhoi tusw o flodau i chi, gan ddweud rhywbeth fel, 'Helo, fe wnes i brynu'r blodau yma i chi.' Rhaid i'r blodau fod yn hanner marw ac yn edrych yn wael - wedi i chi eu derbyn, dwedwch 'diolch' yn ddigon swta a sych!

Gofynnwch i'r plant beth yw eu barn am y blodau? (e.e. dydyn nhw ddim yn neis iawn, ydyn nhw? Ddim yn anrheg arbennig iawn.) Gofynnwch i'r plant beth sydd wedi digwydd iddyn nhw? (e.e. Nid ydyn nhw wedi cael digon o ddŵr, maen nhw wedi marw.)

Taflwch y blodau yn y bin.

**Cymhwyso:** Tydi rhai pethau ddim wedi eu bwriadu i bara am byth, yn union fel y blodau hyn. Fodd bynnag, mae yna un peth SYDD wedi cael ei wneud i bara am byth - (Dadlapiwch y Beibl wedi'i lapio) - sef Y BEIBL!

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Dangoswch dusw o flodau hanner marw y cawsoch gan rywun heddiw
- Dilynwch y gweithgaredd fel uchod

# Gweithgaredd: Rholyn ffilm sioe'r Beibl

**Cymhwyso:** NI fydd y Beibl BYTH yn ddibwrpas a bydd yn para am byth - ond pam? Oherwydd mai stori Duw ydyw!

Sicrhewch fod chwe stori allweddol o'r Beibl wedi'u hargraffu (un llun ar gyfer bob stori). Fe fydd arnoch chi hefyd angen chwe llun o stori nad ydyn nhw'n rhai Beiblaidd wedi'u hargraffu hefyd. Gofynnwch i'r plant ddidoli'r lluniau yn ddau bentwr - straeon o'r Beibl a straeon nad ydyn nhw'n Feiblaidd. Gallwch wneud hyn yn fwy o hwyl a chystadleuaeth trwy rannu'r plant yn dimau, pob un â'i set ei hun o luniau - y tîm cyflymaf i adnabod straeon y Beibl yn gywir sy'n ennill.


Ar ôl cwblhau'r gêm, gofynnwch iddyn nhw ddweud wrthych chi beth maen nhw'n ei wybod am bob un o'r straeon Beiblaidd. Dyma rai straeon a awgrymwyd y gallech eu defnyddio:

| | |
|---|---|
| 1. Noa | (syniadau a awgrymir ar gyfer straeon nad ydynt yn Feiblaidd) |
| 2. Y Creu | 7. Elfed yr Eliffant |
| 3. Iesu'n tawelu storm | 8. Sali Mali |
| 4. Iesu'n marw ac yn dod yn ôl yn fyw | 9. Trysor y Môr Ladron |
| 5. Daniel yn Ffau'r Llewod | 10. Llyfr Mawr y Plant |
| 6. Iesu'n iacháu pobl | 11. Rala Rwdins |
| | 12. Y Tri Mochyn Bach |

**Cymhwyso:** Stori Duw yw'r Beibl - ond ein stori ni yw hi hefyd! Mae'n dweud wrthym pam y gwnaed y byd a pham y cawsom ni ein gwneud. Mae'n dweud wrthym sut y gallwn fod y bobl orau y gallwn fod. Stori Duw yw'r llyfr hwn a phan fyddwn yn ei ddarllen gallwn wybod popeth am Dduw.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Sicrhewch fod y lluniau gennych ar PowerPoint er mwyn eu rhannu ar y sgrin - gan ganiatáu i'r plant ddweud wrthych ba rai sydd i'w cael yn y Beibl a pha rai sydd ddim
- Er mwyn sicrhau bod y gêm hon yn gweithio i'r rhai sy'n gwylio, efallai y gallwch rifo'r straeon ar eich PowerPoint a gweld pwy yw'r plentyn cyflymaf i ysgrifennu ar ddalen o bapur y rhifau cywir sy'n cyfateb i'r lluniau stori cywir



# Gweithgaredd: Geiriau Duw

**Cymhwyso:** *(Gan ddefnyddio'r Beibl mawr sydd wedi'i stwffio â darnau o bapur yn dweud: 'Geiriau Duw,' daliwch ef i fyny a'i ddangos i'r plant)* Ni fydd y Beibl byth yn ddibwrpas a bydd yn para am byth oherwydd ei fod yn sôn am Stori ryfeddol Duw. Mae hefyd yn anhygoel o BWERUS. Pam?

*(Trowch y Beibl ar agor er mwyn gweld y darnau bach o bapur yn cwympo allan, fel conffeti - gorau po fwyaf ohonynt fydd yn hedfan o gwmpas y lle.)* Anogwch y plant i godi'r darnau o bapur a darllen y geiriau sydd arnyn nhw.

**Cymhwyso:** Mae'r Beibl yn bwerus iawn oherwydd ei fod yn LLAWN o eiriau Duw!

# Gweithgaredd: GRYMUS

Os gallwch gael gafael ar darian tegan 'Captain America' a morthwyl tegan 'Thor', gwych, ond os nad yna fe fydd lluniau ohonynt yn ddigonol).

Gosodwch y darian, y morthwyl a'r Beibl ar y llawr a gofynnwch i'r plant eu gosod mewn trefn o'r rhai mwyaf pwerus i'r lleiaf - gadewch iddyn nhw egluro pam. Sicrhewch fod gennych chi bentwr o Feiblau wrth law. Dewch â nhw i gyd allan a'u pentyrru mewn twr. Taflwch y morthwyl a'r darian yn y bin

**Cymhwyso:** Efallai y bydd morthwyl Thor yn gallu trechu'r gelyn cryfaf, a helpu Thor i goncro'r gofod. Efallai bod tarian Capten America mor gryf fel y gall ei amddiffyn yn erbyn unrhyw rym. Fodd bynnag, nid oes dim yn fwy pwerus na'r Beibl. Mae'r Beibl mor bwerus fel y gall newid bywyd unrhyw un. Sut? Oherwydd yn y Beibl y gallwn gwrdd â Duw.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Cadwch eich propiau wrth eich sgrin a chaniatáu i blant ddweud wrthych beth yw'r drefn sydd orau ganddyn nhw a pham
- Gadewch iddyn nhw eich gweld yn rhoi'r arfau yn y bin ar eich sgrin
- Sicrhewch fod pentwr o Feiblau yn barod i'r plant eu gweld pan fo angen

# Gweithgaredd: Hanes Robert Jermaine Thomas


(Crynhowch y stori hon, ond cofiwch fod yn sensitif gyda'r manylion yn ôl natur eich grŵp. Gofalwch bod gennych fap o'r byd neu glôb i ddangos ble mae'r lleoedd byddwch yn sôn amdanynt.)

Roedd yna ddyn o'r enw Robert ac roedd yn byw yng Nghymru (dangos ar y map). Roedd Robert yn caru Duw ac yn caru'r Beibl.

Roedd eisiau dweud wrth bawb am Dduw a rhoi copi o'r Beibl i bawb, felly fe ddechreuodd hynny trwy deithio i Tsieina (dangos ar y map) er mwyn dweud wrth bobl yno am Dduw, a rhoi'r Beibl yn rhodd iddyn nhw. Yna clywodd Robert am le o'r enw Korea ac roedd am i'r bobl a oedd yn byw yno hefyd gael y Beibl (dangoswch Corea ar y map). Fodd bynnag, roedd Corea yn lle peryglus i fynd iddo, yn enwedig os oeddech chi'n cario'r Beibl gyda chi ar y daith.

Ond dysgodd Robert iaith pobl Corea (dangoswch y gair am 'Iesu'). 예수

Helpodd Robert y bobl i gyfieithu'r Beibl i'w hiaith, sef Coreeg; ac aeth ar daith mewn llong gyda'r Beibl hwn. Wrth i'w long agosáu at Corea, dechreuodd criw o filwyr saethu tuag ati. Fodd bynnag, llwyddodd Robert i neidio o'r llong. Dechreuodd ddosbarthu Beiblau i unrhyw un y gallai ei weld wrth iddo redeg ar hyd y lan, gan weiddi'n uchel wrth fynd, 'Iesu, Iesu.'



***Parhad o hanes stori Robert Jermaine Thomas...***

Ond cafodd ei ladd gan y dyn olaf y rhoddodd Robert Feibl iddo. Dywedwyd wrth bobl Corea i ddinistrio'r holl Feiblau, ond yn lle hynny fe ddechreuon nhw ddefnyddio'r tudalennau papur oedd yn y Beibl fel papur wal yn eu tai. Fedrwch chi ddyfalu beth ddigwyddodd wedyn? Fe ddechreuodd pobl ddarllen eu papur wal - sef y Beibl. Cofiwch - geiriau Duw yw'r Beibl; mae'n bwerus a gall newid bywydau pobl. Tra bu i'r bobl ddarllen y Beibl ar eu waliau fe ddaethant i garu Iesu a newidiwyd eu bywydau gan y geiriau grymus.

**Cymhwyso:** Bydd y Beibl yn para am byth oherwydd ei fod yn llawn o eiriau Duw. Mae hynny'n ei gwneud yn bwerus. Mae geiriau Duw yn newid bywydau pobl am byth

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Sicrhewch fod gennych fap o'r byd gyda'r gwledydd perthnasol y mae angen iddynt eu gweld ar eich sgrin - efallai byddai modd gwneud pob gwlad yn sleid PowerPoint ar wahân
- Gallai lluniau wedi eu hargraffu weithio hefyd

# Gweddi greadigol

Gosodwch y plant i eistedd mewn cylch gyda phentwr o Feiblau yn y canol. Gofynnwch i bob plentyn ddod yn ei dro a rhoi ei law ar y Beibl, a diolch i Dduw am rywbeth maen nhw wedi'i ddysgu am y Beibl heddiw.

**Gorffennwch trwy weddïo gyda'ch gilydd:**

*Diolch i ti, O Dduw am y Beibl. Diolch ei fod mor bwerus am ei fod yn llawn o dy eiriau di.*
*Helpa ni i'w ddarllen a dod i'th adnabod di'n well wrth i ni ei ddarllen. Amen*

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gofynnwch i bob plentyn ofalu bod ganddo Feibl wrth law cyn y sesiwn
- Gallant osod eu dwylo ar eu Beibl eu hunain ac yn gweddïo gartref
- Os nad oes gan blentyn Feibl, gallant roi eu dwylo ar eu calon yn lle

# Gweithgaredd Crefft

**Bydd angen:**




Gadewch i'r plant staenio eu dalen o bapur gyda the i wneud iddo edrych yn hen. Wrth i'r dudalen hon ddechrau sychu rhowch farciwr neu bin ffelt du i bob plentyn er mwyn copïo'r symbolau ar gyfer y gair 'Iesu' mewn Coreëg ar y darnau llai o bapur. Glynwch y rhain ar y dudalen o bapur wedi ei staenio â lliw te.